***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 2

## TRAFODIADAU CYN-GWBLHAU

### RHAN 4

### RHEOL ISAFSWM Y GYDNABYDDIAETH

*Yr ail isafswm*

17 (1) Yr "ail isafswm" yw cyfanswm symiau net y gydnabyddiaeth a roddir gan y partïon perthnasol.

(2) Swm net y gydnabyddiaeth a roddir gan unrhyw barti perthnasol yw—

$$CP \quad CPP$$

Ffigwr 1

pan fo—

CP yn gyfanswm y gydnabyddiaeth a roddir gan y parti ar gyfer caffael y buddiant trethadwy neu fel cydnabyddiaeth ar gyfer trafodiad cyn-gwblhau;

CPP yn gyfanswm unrhyw symiau o gydnabyddiaeth a roddir i'r parti gan barti perthnasol arall (neu bartïon perthnasol eraill) yn gydnabyddiaeth ar gyfer caffael y buddiant trethadwy neu fel cydnabyddiaeth ar gyfer y trafodiad cyn-gwblhau,

ac os yw CPP yn fwy na CP yna cymerir mai swm net y gydnabyddiaeth a roddir gan y parti perthnasol yw sero.

(3) Y partïon perthnasol yw—

(a) y prynwr gwreiddiol, a

(b) y trosglwyddai,

oni bai bod is-baragraff (4) yn gymwys.

(4) Os yw'r trafodiad cyn-gwblhau a grybwyllir ym mharagraff 7(1) neu 13(1) ("y trafodiad a weithredwyd") yn un mewn cadwyn o drafodiadau olynol (oll ag o leiaf ran o'u testun yn gyffredin) sy'n drafodiadau cyn-gwblhau mewn perthynas â'r contract gwreiddiol, dim ond y canlynol sy'n bartïon perthnasol—

(a) y trosglwyddwr a'r trosglwyddai mewn perthynas â'r trafodiad a weithredwyd;

(b) trosglwyddwr mewn perthynas â thrafodiad blaenorol, os yw'r trosglwyddwr hwnnw yn gysylltiedig â'r trosglwyddai o dan y trafodiad a weithredwyd, neu heb fod yn gweithredu hyd braich iddo;

(c) y trosglwyddai mewn trafodiad cyn-gwblhau pan fo'r trosglwyddwr yn barti perthnasol (boed yn rhinwedd y paragraff (c) hwn neu fel arall),

ac yn yr is-baragraff hwn ac is-baragraff (6) ystyr "trafodiad blaenorol" yw trafodiad cyn-gwblhau sy'n rhagflaenu'r trafodiad a weithredwyd yn y gadwyn.

(5) At ddibenion is-baragraff (2)—

(a) caiff symiau a roddir gan berson sy'n gysylltiedig â pharti perthnasol eu trin fel pe baent wedi eu rhoi gan y parti perthnasol;

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) caiff symiau a roddir i berson sy’n gysylltiedig â pharti perthnasol eu trin fel pe baent wedi eu rhoi i’r parti perthnasol,

ond nid yw person sy’n barti perthnasol i’w drin, at ddibenion y paragraff hwn, fel pe bai’n gysylltiedig â pharti perthnasol arall (hyd yn oed pe bai hynny’n wir oni bai am y paragraff hwn).

(6) Os nad testun y trafodiad a weithredwyd yw holl destun y contract gwreiddiol—

(a) mae’r symiau yr ystyrir at ddibenion is-baragraff (2) eu bod wedi eu rhoi “ar gyfer caffael y buddiant trethadwy” i’w pennu ar sail deg a rhesymol, a

(b) dim ond hynny o’r gydnabyddiaeth ar gyfer trafodiad blaenorol ag sydd i’w briodoli, ar sail deg a rhesymol, i destun y trafodiad a weithredwyd sydd i’w ystyried o dan is-baragraff (2).